**AGENDA**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **Dydd Gwener 25 Ionawr 2002** |
| **Amser:** | **10.00am to 12.50pm** |
| **Lleoliad:** | **Afan Lido / Aquadome, Port Talbot** |

**Eitem 1: Croeso, Ymddiheuriadau a Datganiadau o Fuddiant** *(10.00 - 10.05am)*

**Eitem 2: Y Strategaeth Dai Genedlaethol**

Bydd y Pwyllgor yn trafod agweddau sy'n codi o "Gartrefi Gwell i Bobl Cymru", y Strategaeth Dai Genedlaethol ar gyfer Cymru. Dyma'r materion y bydd yn canolbwyntio arnynt:

- Safonau ac Ansawdd Tai Cymru
- Mynd i'r afael ag anghenion buddsoddi
- Y Cydfodel Cymunedol ar gyfer trosglwyddo stoc tai awdurdodau lleol
- Gosod tai cymdeithasol

Bydd y cyfarfod yn rhoi cyfle i nifer o sefydliadau lleol i gyflwyno'u safbwyntiau a hefyd bydd cyfle i aelodau o'r cyhoedd gyfrannu at y drafodaeth.

| | |
|---|---|
| 10.05 hyd 10.10 | Cyflwyniad<br><br>*John Bader, Cyfarwyddwr Tai, Cynulliad Cenedlaethol Cymru*<br><br>SWWR-01-02(p.1) |

| | |
|---|---|
| | Dinas a Sir Abertawe |
| 10.10 hyd 10.15 | *Arnold Phillips, Cyfarwyddwr Tai* |
| | SWWR-01-02(p.2) |
| | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| 10.15 hyd 10.20 | SWWR-01-02(p.3) |
| 10.20 hyd 10.50 | Cwestiynau a Thrafodaeth |
| 10.50 hyd 10.55 | Ffederasiwn Tenantiaid Cymru |
| | *Terry Henegan, Cadeirydd* |
| | *Roger Howard, Ysgrifennydd y Cwmni* |
| | SWWR-01-02(p.4) |
| 10.55. hyd 11.00 | *Lawrence Jenkins, Ffederasiwn Tenantiaid Cymru – Caerfyrddin* |
| | *Edna Davies, Ffederasiwn Tenantiaid Cymru – Caerfyrddin* |
| | SWWR-01-02(p.5) |
| 11.00 hyd 11.20 | Cwestiynau a Thrafodaeth |

**11.20 hyd 11.35 – Egwyl 15 munud i gael te/coffi**

**Eitem 3: Meicroffôn Agored** *(11.35 hyd 12.05)*

*Cyfle i aelodau'r cyhoedd fynegi'u barn a gofyn cwestiynau ar y pedwar agwedd o’r Strategaeth Dai Genedlaethol sydd o dan sylw. Caiff y cyfarfod ei recordio ar gyfer archifau'r Cynulliad Cenedlaethol a gofynnir i aelodau'r cyhoedd ddefnyddio meic wrth siarad i helpu gyda'r recordio. Cânt gyfle i roi eu henw*

*hefyd.*

*Os bydd amser, gall y Cadeirydd wahodd cwestiynau neu sylwadau ar faterion eraill sy'n ymwneud â chyfrifoldebau'r Cynulliad Cenedlaethol. Os na fydd yn bosibl i aelodau roi atebion cynhwysfawr, gwahoddir aelodau'r cyhoedd i nodi'r cwestiwn ar ffurflen y gellir ei chael gan Glerc y Pwyllgor neu ei chydweithwyr a chaiff y cwestiwn ei gyflwyno i Weinidog priodol y Cynulliad er mwyn iddo/iddi roi ymateb.*

**Eitem 4: Y Strategaeth Dai Genedlaethol**

| | |
|---|---|
| 12.05 hyd 12.10 | Cymdeithas Tai Abertawe |
| | SWWR-01-02(p.6) |
| 12.10. hyd 12.15 | Cymdeithas Tai Dewi Sant |
| | SWWR-01-02(p.7) |
| 12.15 hyd 12.45 | Cwestiynau a Thrafodaeth |

**Eitem 5: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Hydref** *(12.45 hyd 12.50pm)*

**NODER – Dylai'r cyhoedd nodi mai nifer cyfyngedig o seddau sydd ar gael yn yr oriel gyhoeddus ac fe'ch cynghorir i archebu lle ymlaen llaw. Gallwch wneud hyn drwy ffonio llinell neilltuo lle ar 029 2089 8477. Mae'r llinell ar agor o Ddydd Llun i Ddydd Gwener o 9.30am hyd 4.30pm.**